# A oes gennych ddiddordeb i fod yn Ofalwr Maeth?

## Cyflwyniad

Mae gofal maeth yn golygu gofalu am blentyn neu berson ifanc yn eich cartref eich hun am ba bynnag gyfnod sydd ei angen. Y gobaith yw eu cadw'n agos i'r gymuned y maent yn ei hadnabod, gan gadw cysylltiad â'r teuluoedd y maent yn eu caru.

Mae'n golygu bod yn rhan o dîm, cyfarfod a gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol, teuluoedd a'r bobl ifanc eu hun wrth i gynlluniau gael eu llunio ar gyfer eu dyfodol.

Mae gofal maeth yn golygu helpu plant sy'n derbyn gofal i ddeall eu hamgylchiadau a chynnal ymdeimlad o'u hunaniaeth, gan eu cynorthwyo hefyd wrth iddynt wynebu ansicrwydd a newid.

Mae angen amynedd, goddefgarwch a dealltwriaeth yn wyneb ymddygiad a all fod yn heriol ac annymunol.

Ar ei orau, mae gofal maeth yn galluogi plant mewn angen i fyw'n hapus a llwyddiannus gyda theuluoedd maeth, o fewn amgylchiadau a ffiniau y mae pawb yn cytuno arnynt ac yn cadw atynt. Dyma yw ein dyheadau ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal yma yn Nhorfaen.

## Paham fod plant a phobl ifanc angen gofal maeth?

Efallai bod angen i blant a phobl ifanc dderbyn gofal oherwydd esgeulustod neu effeithiau cam-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol. Efallai bydd angen gofal cyfnod byr neu dymor hir arnynt, neu, efallai mai seibiant byr fydd angen arnynt oherwydd bod argyfwng gan y teulu.

Mae nifer yn dychwelyd at eu rhieni ymhen hir a hwyr, ond bydd rhai yn parhau gyda gofalwyr maeth yn barhaol, neu'n cael eu mabwysiadu.

## Pwy all fod yn ofalwr maeth?

Gallwch fod yn briod, sengl neu mewn perthynas un rhyw. Efallai bod gennych blant eich hun, dim plant o gwbl neu blant sydd wedi gadael y cartref. Efallai eich bod yn gweithio, wedi ymddeol, hunangyflogedig neu'n gweithio rhan amser. Nid oes gwahaniaeth p'un ai eich bod yn berchen ar eich cartref neu'n ei rhentu, ac ni fydd eich crefydd na'ch ethnigrwydd yn effeithio arnoch. Y cyfan yr ydym yn ei ofyn yw eich bod yn hoffi plant ac yn hoffi magu plant, a bod gennych le yn eich cartref a'ch bywyd i ofalu am blentyn rhywun arall gyda brwdfrydedd ac ymroddiad. Bydd rhaid i chi hefyd dderbyn y posibilrwydd y bydd y plentyn o bosib yn dychwelyd adref neu yn symud ymlaen, a gallai hyn fod yn gyfnod gofidus i chi.

## Sut gallaf ddod yn ofalwr maeth?

Mae pecynnau gwybodaeth ar gael gan ein Tîm Lleoli Teuluoedd. Bydd cynrychiolydd o'r tîm yn falch I ymweld â chi yn eich cartref os ydych am wybod mwy. Os byddwch dal i fod â diddordeb i ddod yn ofalwr maeth, gofynnir i chi fynychu ein cwrs gorfodol, *Sgiliau ar gyfer Maethu*.

Os byddwch yn dymuno dod yn ofalwr maeth ar ôl hyn, bydd gweithiwr cymdeithasol o'r Tîm Lleoli Teuluoedd yn ymweld â'ch cartref ar nifer o achlysuron er mwyn dod i'ch adnabod chi a'ch teulu yn well, a chynnal asesiad cychwynnol i bennu eich addasrwydd fel gofalwr maeth.

Bydd angen i chi gyflwyno tri geirda, cytuno i wiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol, a'n bodloni o ran eich iechyd drwy gysylltu â'ch meddyg teulu am archwiliad meddygol. Bydd rhaid i'n Swyddog Iechyd ni dderbyn tystiolaeth o ganlyniadau'r archwiliad. Pan fydd y proses asesu wedi ei gwblhau'n llwyddiannus, byddwch yn cael eich cyfeirio at Banel Maethu Torfaen er mwyn derbyn eu cymeradwyaeth.

## A ydy gofalwyr maeth yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth?

**Ydynt** - Mae'r proses asesu yn cychwyn gyda hyfforddiant – sef y cwrs *Sgiliau ar gyfer Maethu* – ac ar ôl cael eich cymeradwyo, byddwch yn cael eich annog i fynychu ystod eang o gyrsiau a fydd yn eich helpu i ddeall a chynnal eich rôl fel gofalwr maeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i holl ofalwyr maeth fynychu o leiaf tri chyfnod hyfforddi blynyddol o'r fath, ar gyfer eu datblygiad proffesiynol. Nid oes angen cymhwyster ffurfiol, er mae profiad o ofalu am blant yn fantais.

Darperir goruchwyliaeth fisol drwy eich gweithiwr cymorth yn y Tîm Lleoli Teuluoedd, ac fe'ch anogir i fynychu grwpiau cymorth yr ydym yn eu trefnu'n fisol.

Ar ddechrau eich cyfnod fel gofalwr maeth byddwn yn eich darparu â mentor personol a fydd yn medru rhoi cefnogaeth a chyngor i chi.

Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth cymorth teleffon ar ôl oriau gwaith.

## A ydy gofalwyr maeth yn derbyn tal?

Mae holl ofalwyr maeth Torfaen yn derbyn ffi a lwfans maethu I dalu costau dillad, bwyd, gofal dydd i ddydd ac arian poced. Mae lwfansau milltiroedd, gwyliau, penblwyddi a Nadolig hefyd ar gael er mwyn bodloni anghenion plant unigol.

Nid yw lwfansau yn gyflog, ac yn dibynnu ar eich enillion efallai nad ydynt yn drethadwy.

## Ein manylion cyswllt

Os oes angen mwy o help, cysylltwch â ni.

**Ffôn:** 01495 766693

**E-bost**: familyplacementteam@torfaen.gov.uk

**Ein Cyfeiriad:**
Tîm Lleoli Teuluoedd
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

*Mae'r daflen ffeithiau hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â ni er mwyn trefnu hyn.*